

Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Estynnwn ein cydymdeimlad â phawb sydd mewn profedigaeth a chofiwn yn dyner iawn amdanynt yn ein gweddïau.
- Yn yr un modd, anfonwn ein cofion at Amy Evans (Llanfair) ac Ifan Edwards (Tanyfron) sydd wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnos, a hefyd Glyn Davies (Saron) sy'n gobeithio dod adre ar hyn. Hyderwn y caiff y tri ohonynt adferiad iechyd buan iawn ac y byddant yn profi llaw Duw yn eu gwarchod a'u cynnal wrth iddynt gryfhau dros yr wythnosau nesaf hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Bob Davies (Llanfair) sydd wedi symud i fyw i Gartref Llys Onnen yn Abergele. Hyderwn y bydd yn setlo yno'n fuan, ac y bydd yn profi gofal a grym ein gweddïau drosto.
- Llongyfarchiadau i Dilys Jones (Nantglyn) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ddydd Gwener nesaf!
- Llongyfarchiadau hefyd i Steffan Morris (Llansannan) ar ei benodi yn Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluol i Eglwysi Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy. Dymunwn fendith Duw ar ei waith yn eu plith.

I ddod

- **Christian Viewpoint** i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Tachwedd 26ain am 7.30. "Jesus, the reason for the season" gyda Jayne Hirst fydd thema y cyfarfod. Pris: £3 yn cynnwys bwffe.
- **Adnabod DAWN** yn Festri Groes nos Fawrth, Tachwedd 27ain am 7.30.
- **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd nos Iau, Tachwedd 29ain am 7.30.
- **Hyfforddiant Efengyl** gyda Roger Carswell yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 30ain – Rhagfyr 1af. Croeso i ieuenctid 15+ ac oedolion o bob oed. I archebu lle, cysylltwch â'r Coleg: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk
- **Cyfarfod i Flaenoriaid yr Ofalaeth** nos Lun, Rhagfyr 3ydd am 7.30, lleoliad i'w gadarnhau.
- **Codi'r Faner** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug dydd Sadwrn, Rhagfyr 8fed o 10 y.b. – 4 y.p. Diwrnod yw hwn ar gyfer aelodau eglwysi i'n galluogi i fod ynglŷn â gwaith Duw heddiw. Bydd pedair sesiwn: Sylfeini'r ffydd; Cwestiynau Bywyd; Arwain Addoliad; ac Adeiladu'r eglwys trwy'r Rhaglen Ddatblygu. Arweinir y sesiynau gan Euros Wyn Jones a Geraint Tudur. Croeso i bawb.
- **Oedfa Garolau a Phlygain i'r Fro** nos Sul, Rhagfyr 16eg yn Llansannan am 6.00.
- **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel y Groes am 9.30.
- **Taith gerdded** (ar y gwastad!) yn ardal Cefn Meiriadog bore Iau, Rhagfyr 27ain. Pawb i gyfarfod ym maes parcio Capel Cefn Meiriadog am 10.30. Dewch â chinio hefo chi – bydd paned ar gael yn y Festri.
- **Swper Nadolig Adnabod** yn Festri Llansannan nos Wener, Rhagfyr 28ain.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18^{fed} Tachwedd 2012

Cofiwch am CIC Ffactor
nos Wener - dewch
a'ch offerynnau hefo chi!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Dydd da, a chroeso i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw! Gweddiwn y bydd pawb ohonom, os ydym yn addoli mewn oedfa neu beidio, yn profi'r Arglwydd yn agos atom ac yn gweithio ynom trwy ei Ysbryd i beri i ni 'ewyllysio a gweithredu i'w amcanion daionus ef.' (Philipiad 2:13)

Er nad ydi hi'n ofnadwy o oer ar hyn o bryd, dwi'n siŵr fod llawer ohonoch wedi bod yn gwresogi'r tŷ, ac yn paratoi tanwydd o wahanol fathau at y gaeaf sydd i ddod. Dyna'n union yr wyf finnau wedi bod yn ei wneud hefyd, wrth brynu glo a thorri coed i'r stof, a chadw golwg ar olew'r gwres canolog. Ond yn wahanol i'r rhai call a doeth yn eich plith, gwneud hynny ar y funud olaf yw fy nhueddiad i, yn hytrach na pharatoi o flaen llaw cyn crynu mewn oerni! Sawl gwaith rwyf wedi cael fy nal ar noson oer heb unrhyw beth i'w losgi yn y stof (ac weithiau, dim modd i gynnau'r hyn sydd ynddi'n barod!) Y gwir yw fy mod i'n aml yn meddwl mai cysur yn unig yw tŷ cynnes yn hytrach na rhywbeth sy'n allweddol i'm lles. Ond eto, wrth wrando ar arbenigwyr a haneswyr, daw'n amlwg fod gwres a thŷ cynnes yn allweddol ar gyfer iechyd rhywun hefyd. Wrth sylweddoli hynny, mae rhywun yn tueddu i ailystyried ei safbwyntiau!

Felly y gall fod hefo ninnau a'n bywydau ysbrydol. Gallwn lithro i'r dybiaeth bod ein ffydd a'r hyn sydd gan Dduw ar gyfer ei bobl yn gysur i ni pan fyddwn mewn angen ond nad oes angen gwneud dim byd amdano ar hyn o bryd. Ffolineb yw hynny, gan fod y Beibl yn dangos yn glir i ni y dylai'r Arglwydd Iesu fod yn ganolog i holl fywyd y Cristion – ei lawenydd a'i dor-calonn. Dyna'n union oedd profiad yr Apostol Paul pan ddywedodd 'Gwn sut i gymryd fy narostwng, a gwn hefyd sut i fod uwchben fy nigon. Ym mhob rhyw amgylchiadau, yr wyf wedi dysgu'r gyfrinach sut i ddygymod, boed â llawnder neu newyn, â helaethrwydd neu brinder. Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i.' (Philipiad 4:12-13)

Beth amdanom ni heddiw felly? Ydym ni'n gweld ein hangen, ac yna'n barod i droi at Iesu er mwyn iddo ddelio â'n anghenion i gyd? Beth bynnag yw'n hamgylchiadau heddiw neu yn y dyfodol, gallwn fod yn sicr fod gennym Dduw sy'n parhau yn ffyddlon, a Gwardwr sydd yn parhau i alw, achub a gofalu am y rhai sy'n dod ato: "Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi." (Mathew 11:28 Beibl.net)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddî'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00. Yn dilyn y materion ffurfiol, ceir anerchiad gan Lywydd y Cwrdd Chwarter, Mr Alun Edwards, ac yna fe weinyddir y cymun.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- **C.I.C. Ffactor** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15. Dewch a'ch offerynnau!
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun 'Taith i Ghana' yng nghwmni Lois Nant Cornwall fydd gan Gymdeithas Llansannan yn y Ffestri am 7.30.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 2.00 ac fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Guatemala. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Groes am 2.00 pryd y bydd Iwan a Menna Jones yn cyflwyno Gruffydd Elystan i gael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau